# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 17 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

## Agenda

(273)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru (30 munud)**

**4 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (5 munud)**
**NDM5786 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 2, 13 a 17 mewn perthynas â Chofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a Rheolau Sefydlog 17 a 22 mewn perthynas ag Aelodaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015; ac

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i:

a) adolygu Rheolau Sefydlog 17 a 22 fel y nodir yn Atodiad D i adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar unwaith; ac i

b) adolygu Rheolau Sefydlog 2, 13 ac 17 fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes, i ddod i rym ar 1 Medi 2015.

**Supporting Document**
Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**5 Cynnig i gymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill a mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig (15 munud)**
**NDM5784 Mick Antoniw (Pontypridd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reolau Sefydlog 22.2(ii) a 22.2 (iii):

1. Yn cymeradwyo'r Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015;

2. Yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015; ac

3. Yn cytuno y bydd y rhain yn dod i rym ar 1 Medi 2015.

**Dogfennau Ategol**
Canllawiau i Aelodau'r Cynulliad ar Gofrestru, Datgan a Chofnodi Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill
Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5785 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod dros 45,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda dementia ac y rhagwelir y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu 31 y cant erbyn 2021.

2. Yn cydnabod mesurau a weithredwyd gan Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn gofal dementia a'i wella.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i feysydd o arfer gorau o ran gofal dementia o bob rhan o'r DU a thu hwnt er mwyn gwella cyfraddau diagnosis dementia a mynediad at wybodaeth a chefnogaeth briodol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod y cyllid newydd o ychydig dros £5.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau dementia yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ystâd y GIG mor gyfeillgar â phosibl i bobl sydd â dementia ac i'w gwneud yn ofynnol bod pob gweithiwr iechyd proffesiynol yn cael hyfforddiant gorfodol mewn ymwybyddiaeth dementia a gofal dementia.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob aelod o staff yn y GIG yn cael

hyfforddiant priodol mewn gofal i gleifion â dementia.

**7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5787 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraethu da ac arweinyddiaeth effeithiol yn y GIG yng Nghymru a'r angen am atebolrwydd i'r cyhoedd.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried sefydlu comisiynwyr iechyd a etholir yn uniongyrchol fel ffordd o gyflawni hyn yn mhob ardal bwrdd iechyd yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynrychiolaeth a etholir yn ddemocrataidd ar fyrddau iechyd fel ffordd o gyflawni hyn.

**Gwelliant 2 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

*[Os cynigir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 2.

**8 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5788 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn diwallu anghenion dinasyddion Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

"ac yn credu y dylai hyn gynnwys cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau llywodraeth leol."

**Gwelliant 2 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hagenda i ddiwygio llywodraeth leol yn arwain at fwy o dryloywder ac atebolrwydd democrataidd o fewn llywodraeth leol.

**9 Cyfnod pleidleisio**

**10 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5783 Nick Ramsay (Mynwy)**

Clefydau'r croen: Blaenoriaethu anghenion pobl yng Nghymru sydd â chlefydau sy'n effeithio ar y croen

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Mehefin 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 10 Mehefin 2015 i'w hateb ar 17 Mehefin 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## Gofyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

1. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu'r strategaeth ddŵr i Gymru? OAQ(4)0314(NR)**W**

2. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yng Nghymru? OAQ(4)0312(NR)

3. **Jeff Cuthbert (Caerphilly):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(4)0315(NR)

4. **Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau rheoli gwastraff ar gyfer y dyfodol agos yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0323(NR)

5. **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun gofodol morol? OAQ(4)0325(NR)**W**

6. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles anifeiliaid domestig yng Nghymru? OAQ(4)0309(NR)

7. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei ystyriaethau mewn perthynas â chreu ardaloedd menter bwyd? OAQ(4)0321(NR)

8. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun y taliad sylfaenol? OAQ(4)0318(NR)

9. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lles anifeiliaid yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)0308(NR)

10. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu adolygu safbwynt Llywodraeth Cymru ar gnydau a addaswyd yn enetig? OAQ(4)0322(NR)

11. **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithgareddau Amgylchedd Cymru? OAQ(4)0319(NR)

**12. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli gwastraff? OAQ(4)0311(NR)

**13. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i hybu ffermio organig yng Nghymru? OAQ(4)0313(NR)

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drwyddedu cafnau golchi defaid yng Nghymru? OAQ(4)0320(NR)

**15. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rheol gwaharddiad symud chwe diwrnod ar gyfer anifeiliaid byw? OAQ(4)0317(NR)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

**1. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i dai cymdeithasol yng Nghaerffili? OAQ(4)0337(CTP)

**2. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i adfywio'r stryd fawr? OAQ(4)0339(CTP)

**3. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid? OAQ(4)0341(CTP)

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda chydweithwyr yn y Cabinet ar gefnogi'r sector gwirfoddol yng Nghymru? OAQ(4)0340(CTP)

**5. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0342(CTP)**W**

**6. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth o'r cynllun Dechrau'n Deg yn Nhaf Elái? OAQ(4)0334(CTP)

**7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn mewn perthynas â phrosiectau adfywio yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0345(CTP)

**8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r prinder gofal plant mewn ardaloedd gwledig? OAQ(4)0336(CTP)**W**

**9. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch adfywio tir diffaith? OAQ(4)0332(CTP)

**10. Janet Haworth (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw pobl yng Ngogledd Cymru yn cael eu hallgáu'n ddigidol? OAQ(4)0338(CTP)

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r potensial i fynd i'r afael â'r angen o ran tai drwy ailsefydlu fflatiau gwag yng nghanol trefi? OAQ(4)0344(CTP)

**12. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ei rhaglenni cymorth i deuluoedd yn ymgysylltu'n llawn â rhieni? OAQ(4)0333(CTP)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion eraill Cymru ynglŷn â chydlynu materion sy'n ymwneud â threchu tlodi? OAQ(4)0349(CTP)**W**

**14. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o gynnig Llywodraeth y DU i orfodi cymdeithasau tai i werthu eu heiddo presennol o dan y cynllun hawl i brynu? OAQ(4)0346(CTP)

**15. Altaf Hussain (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhwysiant digidol dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)0335(CTP)